Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Chwarae yn Rhondda Cynon Taf: Yr hyn y gwnaethon ni ei ddarganfod

2025

## Dogfen hawdd ei deall

RHONDDA CYNON TAF

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 3 | 1. Datganiad Crynodeb yr Awdurdod Lleol |
| 17 | 2. Sut ydyn ni wedi cael gwybod am yr wybodaeth yma? |
| 19 | 3. Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae |
| 45 | 4. Gwneud y mwyaf o'r arian sydd ar gael |
| 46 | 5. Monitro |
| 48 | 6. Casgliad |


RHONDDA CYNON TAF

# 1. Datganiad Crynodeb yr Awdurdod Lleol

RHONDDA CYNON TAF

# Datganiad Crynodeb yr Awdurdod Lleol

## Cymru yn hyrwyddo hawl plant i chwarae!

Ers 2012, mae cynghorau'n gwirio cyfleoedd chwarae bob tair blynedd ac yn sicrhau mannau diogel a hwyliog i blant. Mae chwarae yn hanfodol ar gyfer hapusrwydd ac iechyd. Mae gan blant yr hawl i chwarae, ymuno â ffrindiau, mwynhau gweithgareddau, a rhannu eu barn.

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf o’r farn bod gan bob plentyn yr hawl i chwarae. Ein nod yw creu mannau diogel a hwyliog i blant a chefnogi teuluoedd i ffynnu. Gyda'n gilydd, ein nod yw creu cymuned deg ac iach lle mae modd i bob plentyn fwynhau chwarae.

# Datganiad Crynodeb yr Awdurdod Lleol

## Mae RhCT o'r farn bod chwarae yn rhan bwysig o fywyd pob plentyn.

Ein nod yw bod pob plentyn a pherson ifanc yn:

- Cael hwyl a mwynhau eu plentyndod
- Dysgu a thyfu trwy chwarae
- Datblygu sgiliau bywyd
- Cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau – gan gynnwys chwarae, chwaraeon, hamdden a phrofiadau diwylliannol

I wneud hyn i ddigwydd, fe wnaeth llawer o wasanaethau'r Cyngor weithio gyda'i gilydd i wirio a oes digon o gyfleoedd chwarae i blant. Fe wnaethon nhw edrych ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei wella.

Defnyddiodd yr adolygiad yma system goleuadau traffig (Coch, Oren, Gwyrdd) i fesur 99 pwynt a gafodd eu gosod gan Lywodraeth Cymru ar draws 9 maes allweddol ar gyfer chwarae. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn y tabl isod:

| Sgoriau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae | Canran y sgoriau yn erbyn Meini Prawf Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae | | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| | 2022 | 2025 | |
| Gwyrdd | 59% | 73% | +14% |
| Oren | 23% | 27% | +4% |
| Coch | 18% | 0% | -18% |

# Datganiad Crynodeb yr Awdurdod Lleol

## Beth wnaeth yr adolygiad ei ganfod?

Mae RhCT wedi gwneud cynnydd da o ran creu rhagor o gyfleoedd chwarae i blant, yn enwedig mewn meysydd a gafodd eu sgorio'n flaenorol fel rhai oedd â'r angen mwyaf i'w gwella.

Serch hynny, mae rhagor o waith i'w wneud o hyd mewn rhai meysydd i sicrhau bod gan bob plentyn y cyfle gorau i chwarae a dysgu.

O 2025 ymlaen, mae Llywodraeth Cymru wedi grwpio'r 9 maes o ran chwarae yn 4 prif thema. Mae'r themâu yma'n ein helpu ni i weld ble rydyn ni'n gwneud yn dda a ble mae angen i ni wella.

# Datganiad Crynodeb yr Awdurdod Lleol

| Thema | Materion Cysylltiedig | Canran Statws Coch Oren Gwyrdd | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Coch | Oren | Gwyrdd |
| Poblogaeth | **Mater A:** Faint o blant sydd ym mhob grŵp oedran yn yr ardal leol.<br>**Mater B:** Deall anghenion plant o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd yn y gymuned.<br>**Mater D:** A oes cost am weithgareddau chwarae, a ble mae'r taliadau hynny'n berthnasol. | 0% | 50% | 50% |
| Lleoedd lle mae plant yn chwarae | **Mater C:** Gwneud yn siŵr bod gan blant leoedd diogel i chwarae, fel parciau a mannau agored.<br>**Mater Dd:** Helpu plant i gyrraedd mannau chwarae yn ddiogel, gyda phethau fel croesfannau a thraffig arafach.<br>**Mater Ff:** Dylai ysgolion a chynlluniau lleol feddwl am greu rhagor o gyfleoedd i blant chwarae. | 0% | 23% | 77% |
| Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth | **Mater Ch:** Darparu cyfleoedd chwarae dan oruchwyliaeth<br>**Mater E:** Hyfforddiant gwaith chwarae a datblygu'r gweithlu | 0% | 30% | 70% |
| Synergedd Polisi, Ymgysylltu, Eiriolaeth a Gwybodaeth | **Mater Dd:** Sut rydyn ni'n helpu teuluoedd i ddod o hyd i gyfleoedd chwarae, megis rhannu gwybodaeth a chynnal achlysuron.<br>**Mater E:** Hyfforddiant i staff sy'n cefnogi chwarae plant.<br>**Mater F:** Faint mae teuluoedd a chymunedau lleol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae.<br>**Mater Ff:** Sicrhau bod cynlluniau a pholisïau eraill yn cynnwys anghenion chwarae plant | 0% | 14% | 86% |

# Thema 1: Poblogaeth

**Yr hyn y gwnaethon ni ei ddarganfod:**

- Mae gwasanaethau chwarae ac ieuenctid y Cyngor yn groesawgar ac yn cynnwys pawb.
- Gwellodd clybiau ieuenctid ar ôl Archwiliad Synhwyraidd, a bydd yr adolygiad yma'n cael ei gynnal mewn gwasanaethau mynediad agored eraill.
- Mae angen yr un gwiriadau mynediad a gwybodaeth glir arnon ni i deuluoedd.

**Sesiynau newydd:**

- Mae sesiynau Chwarae Addasu yn rhoi lle diogel i blant ag anghenion ychwanegol chwarae. Mae teuluoedd wrth eu bodd â'r sesiynau, ond mae angen rhagor o sesiynau mewn rhagor o leoedd arnon ni. Byddwn ni'n defnyddio data lleol i gynllunio'r rhain yn well.
- Mae angen i barciau a mannau chwarae fod yn fwy hygyrch i blant anabl.

**Y Gymraeg:**

- Mae'r Cyngor yn cefnogi plant sy'n siarad Cymraeg drwy fforymau a gweithgareddau ieuenctid.
- Does dim digon o ddarparwyr chwarae ac ieuenctid cyfrwng Cymraeg, felly mae hwn yn faes y mae angen i ni ei wella.

| RAG Statws | Nifer y Meini Prawf |
|---|---|
| Coch | 0 |
| Oren | 9 |
| Gwyrdd | 9 |

# Thema 2: Lleoedd Lle Mae Plant yn Chwarae

**Mae Chwarae'n Bwysig yn RhCT**

Rydyn ni'n gwybod o siarad â theuluoedd bod chwarae'n bwysig. Mae plant a phobl ifainc eisiau lleoedd diogel a hwyliog i chwarae.

- Ledled RhCT, mae yna lawer o leoedd i chwarae, gan gynnwys:
- Dros 200 o fannau chwarae gydag offer
- Mwy na 20 Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGAs)
- Meysydd chwarae a mannau agored

Rydyn ni'n gwirio'r mannau yma'n rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel ac yn bleserus. Caiff pob man chwarae ei archwilio gan staff sydd wedi'u hyfforddi a'i adolygu gan arbenigwyr annibynnol bob blwyddyn hefyd.

Ein nod yw parhau i wella mannau chwarae fel bod modd i bob plentyn eu mwynhau, gan gynnwys y rhai sydd angen cyfleoedd chwarae hygyrch a chynhwysol.

# Thema 2: Lleoedd Lle Mae Plant yn Chwarae

Mae'r Gwasanaeth Strategaeth Diogelwch y Ffyrdd a Thrafnidiaeth yn cefnogi Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae drwy wella diogelwch ffyrdd drwy brosiectau fel Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn Hirwaun (2024–25). Gan weithio gyda Chwaraeon RhCT, fe wnaethon nhw hyfforddi dros 500 o ddisgyblion Blwyddyn 6 mewn beicio a darparu sesiynau beicio cydbwysedd ar gyfer Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2. Fe wnaeth 600 o ddisgyblion fanteisio ar hyfforddiant cerddwyr Kerbcraft. Cyhoeddodd y Cyngor Fap Rhwydwaith Teithio Llesol ac mae'n bwriadu cynnwys cyfleoedd chwarae ar hyd llwybrau, gan annog cerdded a beicio gyda Chwaraeon a Hamdden.

| RAG Statws | Nifer y Meini Prawf |
|---|---|
| Coch | 0 |
| Oren | 7 |
| Gwyrdd | 23 |

# Thema 2: Lleoedd Lle Mae Plant yn Chwarae



Adnewyddu Parc Heol y Twyn, Ystrad yn llwyr



Parc Stryd y Celyn, Rhydfelen: Ychwanegu graffeg a gemau i wella cyfleoedd chwarae

Teras Martins, Abercynon: Cynhwysiant a Hygyrchedd Gwell





Ardal Gemau Aml-ddefnydd Parc Pen-y-graig



# Thema 3: Cyfleoedd dan oruchwyliaeth

**Cyfleoedd Chwarae ac Ieuenctid yn RhCT**

- Mae llawer o weithgareddau chwarae ac ieuenctid ar gael trwy wasanaethau'r Cyngor a phartneriaid lleol.
- Yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol, mae'r Cyngor yn darparu:
  - 16 darpariaeth gofal chwarae mynediad agored
  - 22 darpariaeth ieuenctid mynediad agored
- Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn cynnig gweithgareddau a theithiau ar ôl ysgol, yn ogystal â rhaglenni yn ystod y gwyliau.
- Mae'r Gwasanaeth Celfyddydau a Diwylliant yn darparu cyfleoedd creadigol, ac mae'r gwasanaeth Chwaraeon a Hamdden yn darparu ystod eang o weithgareddau.

**Faint o blant a phobl ifainc a gymerodd ran yn 2024-2025?**

- **Chwarae:** 105,366 wedi cymryd rhan
- **Gwasanaethau Ieuenctid:** 256,255 wedi cymryd rhan
- **Y Celfyddydau:** 18,954 wedi cymryd rhan
- **Siarad a Chwarae:** 24,967 wedi cymryd rhan
- **Chwaraeon a Hamdden:** 12,184 bobl wedi cymryd rhan

Er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau yma mor dda ag y mae modd iddyn nhw fod, mae'r Cyngor wedi cyflwyno Cynllun Sicrhau Ansawdd. Bydd hyn yn helpu i wella ansawdd cyfleoedd chwarae ar draws yr holl wasanaethau.

# Thema 3: Cyfleoedd dan oruchwyliaeth

**Adeiladu Gweithlu Chwarae Cryf**

- Ers 2022, y maes yma sydd wedi gweld y gwelliant mwyaf.
- Mae'r Gwasanaeth Datblygu Chwarae yn gwirio'r gweithlu chwarae bob blwyddyn ac yn cynnig cyfleoedd hyfforddi am ddim yn seiliedig ar y canlyniadau.
- Fodd bynnag, mae rhai darparwyr yn dweud bod costau hyfforddi (fel teithio neu amser) yn rhwystr, felly mae angen mynd i'r afael â hyn.
- Mae'r adolygiad hefyd yn dangos bod angen i ni gynnwys darparwyr Ieuenctid yn yr archwiliadau yma fel eu bod nhw'n cael yr un cyfleoedd hyfforddi.

| RAG Statws | Nifer y Meini Prawf |
|---|---|
| Coch | 0 |
| Oren | 7 |
| Gwyrdd | 16 |

- **Chwarae a Chymorth Cynnar**
- Mae chwarae wrth wraidd gwasanaethau ymyrraeth gynnar megis:
  - **Rhaglenni rhianta**
  - **Siarad a Chwarae**
  - **Dechrau'n Deg**
  - **Rhaglen Creu Cydnerthedd ar gyfer Lles Emosiynol ('CREW') –** gwasanaeth newydd sy'n cynnig cymorth un-i-un i blant 8 i 11 oed gan ddefnyddio therapi chwarae.
- Mae CREW yn helpu plant i feithrin cydnerthedd ac yna'n eu cysylltu â **chwarae mynediad agored a gweithgareddau ieuenctid,** fel eu bod yn parhau i elwa o chwarae dan oruchwyliaeth gyda staff sydd wedi'u hyfforddi.

# Thema 4: Synergedd Polisi, Ymgysylltu, Eiriolaeth a Gwybodaeth

**Chwarae ym Mholisïau'r Cyngor ac Achlysuron yn y Gymuned**

- Caiff chwarae ei ystyried mewn llawer o wasanaethau'r Cyngor megis **Tai, Cynllunio, Traffig, ac Iechyd a Diogelwch.**
- Dangosodd **Gweithdy Gweithredu Chwarae** diweddar ymrwymiad cryf i wella cyfleoedd chwarae, ond mae angen i hyn fod yn fwy cyson ar draws yr holl wasanaethau.
- I helpu gyda hyn, bydd y Cyngor yn:
  - Cynnig **sesiynau ymwybyddiaeth o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae** i' rheiny sy'n gwneud penderfyniadau allweddol
  - Creu **pecyn hyfforddi ar-lein** i ddatblygu **Hyrwyddwyr Chwarae** ym mhob maes gwasanaeth

**Achlysuron yn y gymuned**

- Caiff chwarae ei hyrwyddo mewn achlysuron lleol, gan roi gweithgareddau am ddim neu am gost isel i deuluoedd. Mae achlysuron poblogaidd yn cynnwys:
  - **Picnic y Tedis**
  - **Gŵyl Aberdâr**
  - **Cegaid o Fwyd Cymru**
  - **Diwrnodau Hwyl i'r Teulu**

  ...a llawer yn rhagor!

| RAG Statws | Nifer y Meini Prawf |
|---|---|
| Coch | 0 |
| Oren | 4 |
| Gwyrdd | 24 |

**Rhannu Gwybodaeth am Chwarae**

- Mae'r Cyngor yn defnyddio ei **wefan a'i dudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol** (Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Teuluoedd RhCT, a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid) i rannu cyfleoedd chwarae a hamdden.
- Mae'r llwyfannau yma'n boblogaidd, ond mae teuluoedd yn dweud bod modd i ormod o wybodaeth fod yn ormod i'w gymryd i mewn.


# Thema 4: Synergedd Polisi, Ymgysylltu, Eiriolaeth a Gwybodaeth


**Beth sy'n newid?**

- Bydd y Cyngor yn creu amserlen gryno o gyfleoedd chwarae, gyda chodau QR â rhagor o fanylion.
- Bydd chwarae hefyd yn cael ei hyrwyddo mewn achlysuron yn y gymuned, nid ar-lein yn unig.

**Dod o hyd i fannau chwarae**

- Mae gan wefan y Cyngor fap rhyngweithiol i ddod o hyd i barciau, meysydd chwaraeon a mannau chwarae sy’n agos i chi.
- Cam nesaf: ei gwneud hi'n bosibl hidlo ar gyfer parciau, fel bod modd i deuluoedd ddod o hyd i leoedd sy'n addas i'w hanghenion yn hawdd.






Mae chwarae yn rhan bwysig o'r diwrnod ysgol, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, ac mae dyluniadau ysgolion newydd yn helpu plant i chwarae ym mhob math o dywydd. Mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cynnig gweithgareddau ar ôl ysgol, ond dydyn nhw ddim ar agor cyn nac ar ôl ysgol am ddigon hir ar gyfer cynnal gweithgareddau chwarae.

I wella hyn, mae ysgolion yn Rhondda Cynon Taf yn edrych ar ffyrdd o gydweithio â Gwasanaethau Chwarae ac Ieuenctid, ac Ysgolion Bro. Y syniad yw agor ysgolion ar ôl i'r diwrnod ddod i ben fel bod modd i blant fwynhau chwarae'n rhydd, tra bod Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd yn defnyddio'r amser yma i gysylltu â rhieni a gwarcheidwaid.

## Dyfodol Chwarae yn RhCT (2025-2028)

Mae RhCT eisiau gwneud chwarae'n well ac yn fwy hygyrch i bob plentyn. Mae'r blaenoriaethau allweddol yn cynnwys:

- **Rhagor o chwarae yn y Gymraeg** ar draws gweithgareddau ieuenctid, hamdden, celfyddydau a diwylliannol.
- **Cyfleoedd gwell i blant anabl,** gyda mannau chwarae cynhwysol a hygyrch.
- **Mannau mwy diogel a chreadigol,** gan gynnwys gwelliannau i ardaloedd chwarae sefydlog ac ychwanegu nodweddion chwareus at lwybrau teithio llesol.
- **Defnyddio data i gynllunio** fel bod cyfleoedd chwarae yn diwallu anghenion go iawn yn y gymuned.
- **Darpariaeth chwarae o ansawdd uchel,** gyda Chynllun Sicrhau Ansawdd i gadw safonau'n gyson.
- **Agor tiroedd yr ysgol ar ôl oriau** fel bod modd i blant chwarae y tu hwnt i'r diwrnod ysgol.
- **Hyrwyddo manteision chwarae** i deuluoedd a chymunedau.
- **Gwella addysg diogelwch y ffordd** i leihau pryderon traffig a helpu plant i chwarae tu allan yn ddiogel.

# 2. Sut wnaethon ni ddarganfod yr wybodaeth yma?

RHONDDA CYNON TAF

Rydyn ni wedi gweithio gydag ysgolion, darparwyr chwarae, a phartneriaid yn y gymuned i ddeall sut mae plant yn chwarae a pha gymorth sydd ei angen arnyn nhw. Roedd hyn yn cynnwys arolygon, grwpiau ffocws a gweithdai gydag athrawon, disgyblion a gweithwyr chwarae. Mae'r canfyddiadau'n ein helpu ni i gynllunio gwelliannau, megis rhagor o gyfleoedd chwarae yn ystod y diwrnod ysgol a gwell hyfforddiant i staff. Mae eich adborth a'ch syniadau'n bwysig wrth i ni barhau i wneud Rhondda Cynon Taf yn lle gwych i blant chwarae.

"roedd rhwydweithio â chydweithwyr o adrannau eraill a chael eu mewnbwn i'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn ymarfer cynhyrchiol iawn."

" doedd gyda fi ddim gwybodaeth am yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae cyn dod i'r sesiwn. Roedd y cyflwynwyr yn ardderchog ac roeddwn i'n teimlo bod y gweithdy yn ddiddorol iawn ac yn mynnu ein sylw, ac roedd modd i bawb gyfrannu."

"diwrnod gwych, nifer fawr o syniadau y byddai modd i ni eu datblygu"

“Roeddwn i o'r farn bod y sesiwn yn addysgiadol, wedi'i chyflwyno'n dda ac yn hynod ddefnyddiol”

"[Gwnaeth y gweithdy] ail-ysbrydoli'r broses feddwl"

# 3. Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae?

RHONDDA CYNON TAF

# Sut mae RhCT wedi gofyn i blant a theuluoedd?

**Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae**

## Mae RhCT wedi ymgysylltu â:

**5**
Grwpiau Ffocws gyda Chynghorau Ysgolion Cynradd

**3**
Grwpiau Ffocws mewn Clybiau Ieuenctid

**681**
Plant a Phobl Ifainc a gwblhaodd yr 'Arolwg Chwarae Mawr'

**5**
Grwpiau Ffocws gyda Rhieni a Gwarcheidwaid yn mynychu sesiynau Chwarae Addasu/Chwarae ar gyfer y sawl sydd ag anghenion ychwanegol

**1**
Grŵp ffocws gyda 10 cynhaliwr ifanc


**40**
Rhieni a Gwarcheidwaid a gwblhaodd arolwg ar-lein


Sgyrsiau gyda rhieni a gwarcheidwaid plant sy'n cael cymorth un-i-un gan y garfan Creu Cydnerthedd ar gyfer Lles Emosiynol (CREW)

## Trosolwg o'r Ymgynghoriad

# Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

## Beth rydyn ni'n ei wybod am y rhai a ymatebodd i'r Arolwg Chwarae Mawr?







Ⓗ Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 OS 100023458
© Crown copyright and database rights 2025 OS 100023458


**Ward Tylorstown ac Ynys-hir oedd â'r nifer uchaf o ymatebion ar gyfer y grwpiau oedran 5 i 7 oed ac 8 i 11 oed**

# Ymatebion Arolwg yn ôl Ardaloedd Rhondda Cynon Taf

**Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae**





# Ydych chi'n ystyried eich hun fel rhywun anabl?




# Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae


### Rhondda (195)





### Cynon (268)




### Taf (113)




### Dim modd nodi hyn (105)




Yn ogystal â defnyddio gwybodaeth o gwestiynau, fe wnaeth y Cyngor gwrdd â gwahanol grwpiau o bobl i siarad â nhw

**Yr hyn y mae plant a phobl ifainc wedi'i ddweud wrthym ni:**


Mae Chwarae Cymru yn dweud bod modd atgyfnerthu cyfleoedd i blant chwarae, neu gyfyngu ar hyn, mewn tair prif ffordd:

> **Amser**
> **Y gofynion ar amser plant a sut y caiff ei strwythuro**
>
> **Lle**
> **Maint, dyluniad a rheolaeth y lle y gallai plant chwarae**
>
> **Caniatâd**
> **Ofn, disgwyliadau, goddefgarwch a'r ffordd y mae oedolion yn ystyried plentyndod a chwarae**
>
> **Chwarae Cymru**

Felly, y ffactorau hanfodol yma oedd sail y dadansoddiad o safbwyntiau plant a phobl ifainc.

## Pa mor aml wyt ti'n mynd allan i chwarae neu dreulio amser gyda ffrindiau?

**Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae**




Dim ateb


Ychydig ddiwrnodau'r wythnos

Bron byth

Dydw i ddim yn chwarae nac yn treulio amser gyda ffrindiau y tu allan

Bron bob dydd

## Oes gen ti ddigon o amser i chwarae neu dreulio amser gyda ffrindiau?




Dim ateb

Nac oes, mae angen llawer mwy o amser arna i

Nac oes, hoffwn i gael ychydig mwy o amser

Oes, mae gen i lawer o amser

Oes, mae gen i ddigon o amser

**Yr hyn a ddywedodd plant a phobl ifainc wrthyn ni:**

- Mae **80%** yn mwynhau chwarae a threulio amser gyda'i gilydd yn rheolaidd
- Dywedodd **20%** eu bod bron byth yn chwarae nac yn treulio amser gyda nhw
- Mae plant yn deall bod chwarae'n bwysig oherwydd ei fod yn:
- Meithrin cyfeillgarwch
    - Eu cadw nhw'n heini
    - Eu helpu i ddysgu sgiliau newydd
    - Cefnogi iechyd meddwl

**Lle mae plant yn hoffi chwarae**

- Mae mwy o blant yn dewis **mannau preifat** (cartrefi a gerddi)
- **Mae mannau agored a mannau chwarae yn cael** eu gwerthfawrogi o hyd
- **Roedd gweithgareddau dan oruchwyliaeth** (e.e. clybiau ieuenctid) yn llai poblogaidd:
    - Mae'n debyg oherwydd bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg yn iau (oedran cyfartalog 8 oed)
- **Plant hŷn mewn** grwpiau ffocws:
    - Yn mwynhau clybiau ieuenctid a mannau chwaraeon (e.e. Ardaloedd Gemau Aml-ddefnydd).
    - Eisiau rhagor o'r lleoedd a'r gweithgareddau yma i fod ar gael.

# Pan nad wyt ti yn yr ysgol, pa fath o leoedd hoffet ti chwarae neu dreulio amser ynddyn nhw?

Hoff le i chwarae ynddo


| Lle | Nifer |
| --- | --- |
| Yn fy nhŷ i neu yn nhŷ ffrind | 526 |
| Mewn ardal chwarae gyda siglenni, llithrennau ac offer chwarae eraill | 458 |
| Yn y strydoedd ger fy nhŷ | 343 |
| Yn fy ngardd i neu yng ngardd ffrind | 335 |
| Ar faes chwarae fy ysgol | 318 |
| Ar gae pêl-droed ger fy nhŷ | 267 |
| Mewn parc chwarae antur neu gynllun chwarae | 261 |
| Mewn clwb ar ôl ysgol | 247 |
| Mewn canolfan chwarae dan do | 243 |
| Mewn ardal laswelltog leol | 229 |
| Mewn parc beicio neu barc sglefrio | 213 |
| Rhywle gyda dwr neu dywod ynddo | 196 |
| Mewn canolfan y gymuned neu ganolfan hamdden | 179 |
| Mewn ardal lle mae llwyni, coed a blodau | 175 |
| Yn y goedwig ger fy nhŷ | 133 |
| Rhywle arall (dyweda wrthyn ni ble) | 81 |
| Mewn clwb ieuenctid | 71 |
| Dim ateb | 4 |

**Cyfanswm yr ymatebwyr 4275**


*Roedd modd i'r ymatebwyr ddewis sawl opsiwn

## Pa mor dda ydy'r lleoedd rwyt ti'n chwarae ynddyn nhw?


Ansawdd y lleoedd i chwarae





Dim ateb





Maen nhw'n wych, rydw i'n gallu gwneud yr holl bethau rydw i'n hoffi eu gwneud




Dydyn nhw ddim yn dda, dydw i ddim yn gallu gwneud llawer o'r pethau rwy'n hoffi eu gwneud





Maen nhw'n iawn, rwy'n gallu gwneud rhai o'r pethau rydw i'n hoffi eu gwneud





Maen nhw'n ofnadwy, dydw i ddim yn gallu gwneud dim o'r pethau rydw i'n hoffi eu gwneud

## Overall, how good are your opportunities for playing and hanging out?


Views on opportunities for play and hanging out





Dim ateb





Maen nhw'n dda, ond fe allen nhw fod hyd yn oed yn well





Maen nhw'n wych, allen nhw ddim bod yn well




Dydyn nhw ddim yn dda ac maen nhw angen gwella




Maen nhw'n iawn, ond maen nhw angen gwella rhywfaint




Maen nhw'n ofnadwy ac angen bod yn llawer gwell

**Beth mae plant yn eu hoffi am Chwarae yn Rhondda Cynon Taf**

Mae’r rhan fwyaf o blant a phobl ifainc yn hapus gyda’r cyfleoedd chwarae sydd ar gael – dywedodd dros 90% eu bod yn “wych” neu’n “iawn”. Pan wnaethon ni ofyn iddyn nhw beth oedden nhw'n ei fwynhau fwyaf, yr atebion mwyaf poblogaidd oedd:

- Parciau ac offer chwarae
- Caeau a meysydd pêl-droed (gan gynnwys caeau 3G)
- Teimlo'n ddiogel yn y mannau yma
- Sesiynau chwarae ar ôl ysgol
- Mannau gwyrdd megis caeau ac ardaloedd glaswelltog
- Parciau Sglefrio a thraciau sgwter
- Mannau i reidio beiciau

Rhannodd plant lawer o brofiadau cadarnhaol am y cyfleoedd chwarae a hamdden yn Rhondda Cynon Taf!

**Mae 60% o blant a phobl ifainc** o'r farn bod angen gwella cyfleoedd chwarae.

**Pryderon allweddol:**

- Bwlio
- Diogelwch ar y ffyrdd
- Sbwriel
- Diffyg cyfleusterau sy'n addas ar gyfer disgyblion ag ADY a chadeiriau olwyn
- Rhyngweithiadau gwael mewn mannau chwarae

**Awgrymiadau ar gyfer gwelliannau:**

- Rhagor o draciau BMX/beicio
- Offer chwarae ychwanegol ac wedi'i atgyweirio
- Mannau i blant hŷn
- Ardaloedd beicio mwy diogel
- Mannau chwarae sy'n gyfeillgar i blant ag ADY
- Mwy o weithgareddau ac opsiynau ar ôl ysgol
- Hyrwyddo gwell ar y cyfryngau cymdeithasol

## Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

### Teithio i Leoedd Chwarae

- Mae'r rhan fwyaf o blant (dros ddwy ran o dair) yn cerdded neu'n beicio i ardaloedd chwarae
- Mae mwy na hanner yn defnyddio trafnidiaeth i gyrraedd yr ysgol
- Mae'r Cyngor yn creu llwybrau Teithio Llesol ledled Rhondda Cynon Taf fel bod modd i bobl gerdded, olwyno neu feicio'n ddiogel
- Mae'r cynlluniau'n cynnwys ychwanegu nodweddion chwareus ar hyd llwybrau i ysgolion a mannau chwarae
- Mae hwn yn gam gweithredu allweddol ar gyfer 2025-26


### Caniatâd i Chwarae

- Dywedodd tua dwy ran o dair o blant bod modd iddyn nhw chwarae y tu allan heb oedolyn
- Dywedodd bron i 30% nad oes modd iddyn nhw chwarae yn lle maen nhw eisiau bob amser
- Soniodd rhai am fwlio mewn mannau chwarae
- Dywedodd bron i 90% eu bod nhw fel arfer yn teimlo'n ddiogel wrth chwarae
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg yn iau (8 oed ar gyfartaledd), a allai effeithio ar y canlyniadau.


"Rydw i'n teimlo'n ddiogel yn cymdeithasu yn fy nghymuned oherwydd fy mod i'n adnabod y rhan fwyaf o bobl. Rydw i bob amser gyda fy ffrindiau"
**Cyfranogwr Grŵp Ffocws Ieuenctid**

## Sut mae oedolion pan fyddwch chi'n chwarae neu'n treulio amser gyda'ch gilydd?


Roedd dros 80% o'r bobl ifainc a ymatebodd yn fodlon bod oedolion yn derbyn plant a phobl ifainc yn treulio amser gyda'i gilydd, er bod canfyddiad oedolion o bobl ifainc yn thema gyffredin i'w thrafod mewn grwpiau ffocws gyda phlant ifainc (11 oed a hŷn).





**Dim ateb**





**Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn wych ac yn hapus gyda phlant yn chwarae tu allan**




**Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn flin ac yn casáu plant yn chwarae tu allan**




**Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn iawn ac yn fodlon bod plant yn chwarae tu allan**




**Mae rhai oedolion yn flin a dydyn nhw ddim yn hoffi bod plant yn chwarae tu allan**

> "Mae pobl hŷn bob amser yn meddwl bod pobl ifainc yn achosi problemau"
>
> **Cyfranogwr Grŵp Ffocws Ieuenctid**

**Chwarae mewn Ysgolion**

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau amser chwarae, ond mae disgyblion hŷn eisiau rhagor o gyfleoedd i chwarae.
- Mae amseroedd egwyl yn amrywio rhwng ysgolion a grwpiau oedran.
- Dywedodd bron i hanner y penaethiaid bod modd tynnu egwyliau oherwydd ymddygiad gwael.
- Mae ysgolion yn darparu gweithgareddau megis:
    - Chwaraeon
    - Beiciau cydbwysedd
    - Llochesi dychymyg
    - Ardaloedd tawel
    - Arweinwyr Chwarae a Llysgenhadon Chwaraeon
- Mae plant a phenaethiaid eisiau rhagor o offer a lle storio. Mae llwybrau trim wedi'u hawgrymu ar gyfer chwarae yn yr awyr agored

**Y Camau Nesaf**

- Creu Polisi Chwarae Ysgolion RhCT ar gyfer dull cyson.
- Treialu agor tiroedd ysgol ar ôl oriau arferol yr ysgol fel bod modd i blant chwarae y tu hwnt i'r diwrnod ysgol.

# Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Fe wnaethon ni wrando ar rieni a gwarcheidwaid yn rhan o’n hasesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae.

Defnyddiodd y Cyngor arolwg o'r pecyn cymorth Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac ychwanegodd gwestiynau ychwanegol ar gyfer RhCT. Cawson ni 40 o ymatebion.


Er mwyn deall profiadau teuluoedd hyd yn oed yn well, siaradodd y garfan CREW â rhieni a gwarcheidwaid yn ystod eu gwaith hefyd. Rhoddodd y sgyrsiau yma wybodaeth werthfawr inni i helpu i lunio'r asesiad.

## Ble mae hoff le eich plentyn/plant i chwarae?

| | |
|---|---|
| Ardal chwarae gyda siglenni, llithrennau ac offer chwarae eraill | 13 |
| Clwb Ieuenctid | 3 |
| Ardal lle mae coed, llwyni a blodau | 2 |
| Stryd ger ein tŷ ni | 1 |
| Ein tŷ ni neu dŷ teulu/ffrindiau | 7 |
| Cae Pêl-droed | 3 |
| Parc beicio neu barc sglefrio | 2 |
| Ardal laswelltog leol | 1 |
| Rhywle gyda dwr neu dywod ynddo | 3 |
| Ein gardd ni neu ardd teulu/ffrind | 2 |
| Cynllun chwarae/canolfan chwarae dan do | 2 |
| Yn y goedwig ger ein cartref | - |


# Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Yn dilyn dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg a'r grwpiau ffocws gyda rhieni a gwarcheidwaid, fe wnaethon ni ddarganfod:




**Roedd 92% yn cytuno'n gryf ac roedd 8% yn cytuno bod chwarae'n dda i iechyd a hapusrwydd plant**

**Mae pwysigrwydd chwarae wrth gyfrannu at iechyd a hapusrwydd plant yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n eang gan bob Rhiant a Gwarcheidwad.**





**Y tu allan i'r ysgol, dewisodd bron i hanner yr ymatebwyr fod eu plentyn/plant 'bron byth' neu 'ddim yn chwarae nac yn treulio amser gyda ffrindiau na theulu'**

**Cyfleoedd chwarae rhydd/heb strwythur megis parciau, mannau chwarae ac yn y cartref yw'r hoff fannau chwarae.**



# Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae


## Pa mor aml mae eich plentyn/plant yn chwarae neu'n treulio amser gyda ffrindiau neu deulu y tu allan i'r ysgol?

| | |
|---|---|
| Bob dydd | 3% |
| Bron bob dydd | 18% |
| Ychydig ddiwrnodau bob wythnos | 33% |
| Ychydig ddiwrnodau bob mis/braidd byth | 23% |
| Dydyn nhw ddim yn chwarae nac yn treulio amser gyda ffrindiau y tu allan | 23% |



Chwarae yn y stryd neu fannau agored lleol yw'r ardal leiaf poblogaidd ar gyfer chwarae.

Daeth i'r amlwg bod mynediad at fannau chwarae yn rhwystr i blant rhag chwarae y tu allan.




Pryderon diogelwch sy'n gysylltiedig â thraffig yw'r prif rwystrau i blant rhag chwarae y tu allan.

"Mae'r ffyrdd yn brysur iawn, mae ceir yn mynd ar wib"


**Ymateb gan riant o sgyrsiau'r Rhaglen Creu Cydnerthedd ar gyfer Lles Emosiynol ('CREW')**

## Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae




Roedd mwy o oedolion yn anghytuno (46%) bod digon o gyfleoedd chwarae wedi'u trefnu yn yr ardal leol o'i gymharu â'r rhai a oedd yn cytuno (25%).

Roedd 46% o oedolion yn cytuno bod digon o gyfleoedd chwarae rhydd, er hynny roedd 41% yn anghytuno.



## Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

**Yr hyn a ddywedodd teuluoedd wrthyn ni**

- Mae modd i gost fod yn rhwystr o ran cyfleoedd chwarae
- Gofynnodd rhieni am ragor o weithgareddau ar ôl ysgol am ddim megis garddio, celf a chrefft, a meithrin tîm.
- Dywedodd rhai fod gweithgareddau'n rhy ddrud i deuluoedd â mwy nag un plentyn.

**Beth wnaethon ni ddarganfod**

- Mae yna lawer o gyfleoedd chwarae am ddim yn RhCT, ond dywedodd rhieni nad yw'r rhain bob amser yn hawdd dod o hyd iddyn nhw.
- Mae gwneud y gweithgareddau yma'n haws i ddod o hyd iddyn nhw yn flaenoriaeth uchel yng Nghynllun Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025–26.

**Chwarae i Blant Anabl**

- Mae angen rhagor o gyfleoedd chwarae i blant a phobl ifainc anabl
- Mae'r Cyngor eisiau i bob plentyn fwynhau ei hawl i chwarae.
- Cafodd ymgynghoriadau ychwanegol eu cynnal yn ystod sesiynau Chwarae Addasu a sesiynau Chwarae ADY a gafodd eu cynnal gan Fuze.
- Ymunodd rhieni a gwarcheidwaid â grwpiau ffocws hefyd i rannu profiadau.
- Dywedodd teuluoedd eu bod nhw wir yn gwerthfawrogi'r sesiynau Chwarae Addasu sydd ar gael ar hyn o bryd.

**Pam mae hyn yn bwysig?**

- Mae'n cefnogi Erthygl 23 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
  - Dylai plant anabl gael cyfle i gyrraedd eu llawn botensial.
  - Cymryd rhan yn eu cymuned.
  - Mynediad at addysg, gofal iechyd, a chyfleoedd i ymlacio a chwarae.

**Dywedodd teuluoedd wrthyn ni fod cyfleoedd chwarae i blant anabl yn aml yn gyfyngedig ac yn ddrud pan fyddan nhw'n cael eu darparu gan sefydliadau preifat.**

**Mae hyn yn golygu nad yw chwarae bob amser yn deg nac yn hygyrch i bawb yn RhCT. Dywedodd rhieni hefyd eu bod yn wynebu llawer o rwystrau, gan gynnwys anawsterau wrth gael mynediad at gyfleusterau addas.**

**"Mae Chwarae Addasu wedi bod yn gefn gwirioneddol i mi gan nad oes gan fy mab awtistiaeth, mae ganddo gyflwr genetig prin, ac mae pob grŵp ADY arall ar gyfer plant sydd ag awtistiaeth. Mae'r staff yma wir yn gefnogol, ac rydyn ni'n teimlo ein bod ni'n cael ein croesawu."**

Dywedodd teuluoedd wrthyn ni, er bod sesiynau Chwarae Addasu yn ddefnyddiol iawn, nad oes digon ohonyn nhw.
Dywedodd rhieni yr hoffen nhw gael rhagor o sesiynau yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol, ac mewn rhagor o leoliadau. Mae hyn wedi cael ei wneud yn flaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025–26.

"Angen rhagor gan nad oes gyda ni hanner gymaint o leoedd a chyfleoedd â sydd gyda phlant niwro-nodweddiadol"

— Ymatebydd Arolwg Rhieni


Mae adborth gan 50 o blant anabl yn yr Arolwg Chwarae Mawr yn cefnogi'r hyn a ddywedodd rhieni.

- Dywedodd 34% o blant anabl eu bod "braidd byth" neu "ddim yn" chwarae na threulio amser gyda ffrindiau – 14% yn uwch na phlant nad ydyn nhw'n anabl.
- Dywedodd 18% "prin y mae modd i mi chwarae yn unrhyw un o'r lleoedd yr hoffwn i chwarae ynddyn nhw" – 10% yn uwch nag ymatebion eraill.
- Dim ond 24% ddywedodd "Mae modd i mi chwarae ym mhob lle yr hoffwn i ei chwarae", o'i gymharu â 38% o blant eraill.


Pan ofynnwyd iddyn nhw ble maen nhw'n hoffi chwarae, rhoddodd plant anabl atebion tebyg i eraill:

- Mae'r rhan fwyaf yn ffafrio mannau preifat.
- Mae llawer hefyd yn hoffi mannau chwarae neu glybiau chwarae/ieuenctid ar ôl ysgol.


## Pa mor aml wyt ti'n mynd allan i chwarae neu dreulio amser gyda ffrindiau?





Dydw i ddim yn chwarae nac yn treulio amser gyda ffrindiau y tu allan




Bron byth





Ychydig ddiwrnodau'r wythnos





Bron bob dydd


## Wyt ti'n gallu chwarae ym mhob lle yr hoffet ti chwarae?





Dim ateb





Prin y mae modd i mi chwarae yn unrhyw un o'r lleoedd yr hoffwn i chwarae ynddyn nhw




Mae modd i mi chwarae mewn rhai o'r lleoedd yr hoffwn i chwarae ynddyn nhw




Dim ond mewn ychydig o'r lleoedd yr hoffwn i chwarae ynddyn nhw y mae modd i mi wneud hynny




Mae modd i mi chwarae ym mhob lle yr hoffwn i chwarae ynddyn nhw

## Pan nad wyt ti yn yr ysgol, pa fath o leoedd hoffet ti chwarae neu dreulio amser ynddyn nhw?

I'r rhai a nododd fod gyda nhw anabledd

| Lle | Nifer |
|---|---|
| Yn fy nhŷ neu yn nhŷ ffrind | 40 |
| Mewn ardal chwarae gyda siglenni, llithrennau ac offer chwarae eraill | 30 |
| Yn y strydoedd ger nhŷ | 25 |
| Mewn parc chwarae antur neu gynllun chwarae | 20 |
| Mewn canolfan chwarae dan do | 19 |
| Yn fy ngardd i neu yng ngardd ffrind | 18 |
| Ar faes chwarae fy ysgol | 18 |
| Mewn clwb ar ôl ysgol | 17 |
| Mewn parc beicio neu barc sglefrio | 16 |
| Mewn canolfan gymunedol neu ganolfan hamdden | 14 |
| Ar gae pêl-droed agos at fy nhŷ | 14 |
| Y goedwig ger fy nhŷ | 12 |
| Mewn ardal lle mae llwyni, coed a blodau | 11 |
| Mewn ardal laswelltog leol | 11 |
| Rhywle gyda dwr neu dywod arno | 10 |
| Mewn clwb ieuenctid | 8 |
| Rhywle arall (dyweda wrthyn ni ble) | 10 |
| Llithrennau ac offer eraill i chwarae arnyn nhw | 1 |
| Mewn ardal chwarae gyda siglenni | 1 |
| Dim ateb | 1 |

**Cyfanswm yr Ymatebwyr 50**

*Roedd modd i'r ymatebwyr ddewis sawl opsiwn

# Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae



Fe wnaeth yr holl safbwyntiau a barn a gafodd eu casglu ein helpu i benderfynu ar gamau gweithredu i wella chwarae yn RhCT wrth symud ymlaen

# 4. Gwneud y mwyaf o'r arian sydd ar gael

Mae gwahanol wasanaethau'r Cyngor yn defnyddio gwahanol botiau o arian i dalu am y camau gweithredu sydd eu hangen. Mae'r arian yma yn dod gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Mae gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd fwyfwy.

# 5. Monitro

RHONDDA CYNON TAF

Mae grŵp o staff y Cyngor yn cydweithio i gynllunio sut i sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc yn RhCT gyfleoedd i chwarae

| Maes Gwasanaeth | |
|---|---|
| Carfan Datblygu Chwarae | Dechrau'n Deg |
| Gwasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid | Gofal Plant |
| Carfan Plant Anabl | Teuluoedd Cydnerth – Y Garfan Rhianta |
| Creu Cydnerthedd ar gyfer Lles Emosiynol ('CREW') ar gyfer plant a phobl ifainc 8 i 11 oed | Teuluoedd Cydnerth – Y Garfan Siarad a Chwarae |
| Cynllunio a Thrawsnewid Gwasanaethau | Polisi Cynllunio |
| Swyddog Hyfforddi'r Gwasanaeth Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned | Traffig |
| Rhaglenni Strategol a Phartneriaethau yn y Gymuned | Carfan Diogelwch y Ffyrdd |
| Ysgolion Bro | Cludiant |
| Chwaraeon RhCT | Y Celfyddydau a Diwylliant |
| Chwaraeon yn y Gymuned | Gwasanaeth y Llyfrgelloedd |
| Parciau a Chwarae | Datblygu’r Gymuned |
| Eiddo'r Cyngor | Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd |
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf | Tai |
| Cymunedau Diogel | Iechyd a Diogelwch |

# 6. Casgliad

RHONDDA CYNON TAF

# Fe wnawn ni:

**Defnyddio Power BI i dreialu'r defnydd o ddangosfwrdd data chwarae.**

**Cynnal archwiliadau mynediad ar bob darpariaeth chwarae a darpariaeth ieuenctid mynediad agored**

**Defnyddio data i gynnig cyfleoedd chwarae dan oruchwyliaeth i Blant Anabl yn y lleoliadau mwyaf priodol.**


**Ehangu nifer y gweithgareddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i blant, pobl ifainc a theuluoedd.**

# Mannau Lle Mae Plant yn Chwarae

## Fe wnawn ni:

Trin a thrafod hyfywedd cynllun peilot menter 'Strydoedd Chwarae' drwy gau strydoedd ar sail cynllunio hyn ymlaen llaw ar gyfer achlysuron cenedlaethol.

Parhau i wella cynhwysiant a hygyrchedd mannau chwarae yn RhCT.



Ymgysylltu â Theithio Llesol i drin a thrafod cyfleoedd ar gyfer chwarae ystyrlon ar hyd llwybrau cerddwyr.

Ymgysylltu â Llwybrau Diogel mewn Cymunedau i drin a thrafod cyfleoedd ar gyfer chwarae ystyrlon ar hyd llwybrau cerddwyr.

# Fe wnawn ni:

Gwella ansawdd y ddarpariaeth chwarae ar draws Darparwyr Chwarae Trydydd Sector a gaiff eu comisiynu.

Cefnogi a chyflwyno Chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy'r Rhaglen Bwyd a Hwyl. Cyflwyno cymorthdaliadau i'r rhaglen gwyliau drwy gydol Haf o Hwyl gyda Chwaraeon RhCT.

Trin a thrafod y posibilrwydd y gallai Llysgenhadon Ifainc Chwaraeon ymgymryd â Hyfforddiant Gwaith Chwarae gyda'r bwriad o gydnabod pwysigrwydd chwarae mewn ffyrdd o fyw egnïol.

Ymateb i bryderon y Trydydd Sector ynghylch costau hyfforddi.

# Polisi, Ymgysylltiad, Eiriolaeth a Gwybodaeth

## Fe wnawn ni:

Gwella hygyrchedd gwybodaeth ynghylch darpariaeth ac achlysuron dan oruchwyliaeth am ddim/cost isel drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Diweddaru gwefan/map rhyngweithiol y Cyngor i amlygu meysydd chwarae sydd wedi gwella hygyrchedd i blant a phobl ifainc anabl.

Codi proffil chwarae ymhlith y rheiny sy’n gwneud penderfyniadau allweddol.

Sicrhau bod anghenion y gymuned yn cael eu hystyried mewn perthynas â datblygu/uwchraddio mannau chwarae sefydlog.

Defnyddio Achlysuron Corfforaethol fel ffordd o gyflwyno a hyrwyddo cyfleoedd chwarae mynediad agored.

Datblygu rhaglen hyfforddi ar-lein gyda'r nod o greu 'Hyrwyddwyr Chwarae' ym mhob maes gwasanaeth.

Cynnal achlysuron Hwyl i'r Teulu am ddim dros y gwyliau gyda'r nod o hyrwyddo cyfleoedd chwarae rhwng cenedlaethau.

Codi proffil chwarae yn ystod y diwrnod ysgol gyda staff addysgu a goruchwylwyr amser cinio.

# I Blant a Theuluoedd

**Rydyn ni wedi ymrwymo i wneud chwarae'n fwy hygyrch, cynhwysol a hwyl i bob plentyn a theulu yn RhCT.**
**Dyma sydd ar y gweill:**

## Fe wnawn ni:

**Defnyddio data i wneud yn siŵr bod cyfleoedd chwarae yn y lleoedd cywir i bob plentyn, gan gynnwys y rhai ag anableddau.**

**Cynnig rhagor o weithgareddau chwarae cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifainc.**

**Cynnal gwiriadau i wneud yn siŵr bod mannau chwarae a mannau i ieuenctid yn hawdd eu cyrraedd i bawb.**

# Fe wnawn ni:

Parhau i wella mannau chwarae fel eu bod nhw'n groesawgar ac yn hygyrch.

Ystyried cyflwyno Strydoedd Chwarae – cau strydoedd dros dro i'w gwneud yn ddiogel ar gyfer chwarae yn ystod achlysuron arbennig.

Gweithio gyda charfanau Teithio Llesol a Llwybrau Diogel i greu mannau chwarae ar hyd llwybrau cerdded.

# Fe wnawn ni:

| |
|---|
| Cefnogi rhaglenni hwyliog, egnïol megis Bwyd a Hwyl a Haf o Hwyl |
| Gwella ansawdd y sesiynau chwarae a gaiff eu darparu gan bartneriaid cymunedol lleol. |
| Trin a thrafod hyfforddiant ar gyfer Llysgenhadon Chwaraeon Ifainc fel bod modd iddyn nhw helpu i hyrwyddo chwarae. |
| Gwrando ar bryderon y gymuned ynghylch costau hyfforddi ar gyfer darparwyr chwarae. |

# Gwybodaeth a Chymorth

## Fe wnawn ni:

Codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd chwarae gyda'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau.

Diweddaru gwefan y Cyngor a mapiau'r Cyngor i ddangos pa feysydd chwarae sy'n hygyrch i blant anabl.

Gwneud yn siŵr bod lleisiau lleol yn cael eu clywed wrth gynllunio mannau chwarae newydd neu wedi'u huwchraddio.

Annog ysgolion i gynnwys chwarae yn ystod y dydd a hyfforddi staff amser cinio.

Defnyddio achlysuron yn y gymuned i hyrwyddo cyfleoedd chwarae agored.

Rhannu gwybodaeth glir am sesiynau chwarae am ddim neu gost isel drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Cynnal Diwrnodau Hwyl i'r Teulu am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol.

Creu rhaglen hyfforddi ar-lein i ddatblygu Hyrwyddwyr Chwarae ym mhob maes gwasanaeth.